

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG  
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A  
LLWYTHO A PHARCIO)  
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 6) 2020**

1. Ar 21 Gorffennaf 2020 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod a thynnu'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlenni isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 27 Gorffennaf 2020 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu tynnu neu eu gosod, p'un bynnag sydd hwyraf, ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 6) 2020"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a chynlluniau yn dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos wedi 27 Gorffennaf 2020 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Diwygir y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol fel a ganlyn:

**Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN 1**

**Cynnig i Wahardd Aros ar Unrhyw Adeg**

**Murch Road, Dinas Powys - Atodlen Map AM61**

Ar ochr y dwyrain o bwynt tua 1.5 metr i'r de o linell adeiladu ddeheuol eiddo rhif 53 i gyfeiriad y de am tua 116 metr.

Ar ochr y gorllewin o bwynt tua 27 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â Cherry Close, i gyfeiriad y de am tua 37 metr.

Ar ochr y gorllewin o ochr ogleddol y gyffordd â'r ffordd fynediad i Ganolfan Iechyd Dinas Powys, i gyfeiriad y gogledd am tua 18 metr.

Ar ochr y gorllewin o ochr ddeheuol y gyffordd â'r ffordd fynediad i Ganolfan Iechyd Dinas Powys, i gyfeiriad y de am tua 31.5 metr.

Ar ochr y de o'r gyffordd â Ffordd Merrett i gyfeiriad y dwyrain ac wedyn i'r de-ddwyrain am tua 21 metr.

**Ffordd Merrett, Dinas Powys**

Ar y ddwy ochr o'r gyffordd â Murch Road, i gyfeiriad y de-orllewin am tua 17 metr

**ATODLEN 2**

**Cynnig i Ddiddymu Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg**

**Murch Road, Dinas Powys - Atodlen Map AM61**

Ar ochr y dwyrain o'r ffin ddeheuol rhwng eiddo rhif 53 i gyfeiriad y de am 35 metr.

Ar ochr y gorllewin o'r ffin ddeheuol rhwng eiddo rhif 53 i gyfeiriad y de am 121 metr.

Ar ochr y de-ddwyrain o'r fynedfa i safle Ysgol Gyfun Sant Cyres (Ffordd Merrett bellach) i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am 35.1 metr.

Dyddiad: 23 Gorffennaf 2020.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg,

Depo'r Alps, Gwenfô, CF5 6AA